Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**15 Hydref 2024**
LLEOLIAD:	**O bell drwy fideogynadledda**
TEITL:	Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch Gwasanaethau Rheoleiddiedig Cyngor Sir Ceredigion
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu sicrwydd bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion rheoleiddio wrth ddarparu gwasanaethau rheoleiddiedig.
	Er gwybodaeth

Cefndir

Arolygiaeth Gofal Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r arolygiaeth yn cofrestru ac yn arolygu gwasanaethau gan gymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

Mae gan Gyngor Ceredigion nifer o wasanaethau rheoleiddiedig sy'n cael eu harolygu'n rheolaidd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cartref Gofal Preswyl Bryntirion
- Cartref Gofal Preswyl Tregerddan
- Cartref Gofal Preswyl Min y Môr
- Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg
- Cartref Gofal Preswyl yr Hafod
- Cartref Gofal Preswyl Hafan y Waun
- Y Gwasanaeth Gofal wedi'i Dargedu a Galluogi
- Y Gwasanaeth Maethu

Mae'r arolygiadau yn canolbwyntio ar 4 maes allweddol:

1. Llesiant
2. Gofal a Chymorth
3. Yr Amgylchedd
4. Arweinyddiaeth a Rheoli

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn unigolyn yr ystyrir ei fod yn gymwys o dan adran 21, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Gall Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddirprwyo'r swyddogaeth hon ac yng Nghyngor Sir Ceredigion, mae'r swyddogaeth wedi'i dirprwyo i'r Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol.

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol rôl hanfodol o ran monitro ansawdd ac mae ymweliadau monitro rheolaidd yn cael eu cwblhau gyda phob gwasanaeth. Caiff yr adroddiadau monitro eu hystyried a'u hadolygu mewn cyfarfodydd rheolaidd â'r Cyfarwyddwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Monitro Ansawdd mewnol sydd hefyd yn cynnal ymweliadau monitro rheolaidd ar gyfer pob un o wasanaethau rheoleiddiedig y Cyngor.

Mae'r adroddiadau arolygu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn yn nodi bod gwasanaethau'r Cyngor yn gweithredu i safon uchel yn 3 o'r meysydd allweddol sef Llesiant, Gofal a Chymorth ac Arweinyddiaeth a

Rheoli. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â sawl amgylchedd. Mae'r Cyngor yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac mae buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i wella'r amgylchedd yn y mannau hyn ac i fodloni'r gofynion perthnasol o ran diogelwch tân. Mae hyn wedi arwain at gyhoeddi Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yng nghyswllt Rheoliad 44 – Amgylchedd Safle. Mae cydweithio cadarnhaol rhwng adrannau'r Cyngor wedi arwain at ddatblygu rhaglen waith fanwl ac mae'r gwaith o weithredu'r rhaglen yn mynd rhagddo. Hefyd, darperir diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r gwaith gwella a'r cynllun gweithredu.

ARGYMHELLIAD:

Gofynnir i'r Pwyllgor wneud y canlynol:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad ac adroddiadau arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cyd-fynd â'r adroddiad.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:
Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol

Atodiadau:
Adroddiadau Arolygu
Arolygiaeth Gofal Cymru

Adroddiad Blynyddol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Pennaeth y Gwasanaeth:
Donna Pritchard
Swyddog Arweiniol
Corfforaethol – Porth
Gofal

Swyddog Adrodd:
Donna Pritchard
Swyddog Arweiniol
Corfforaethol – Porth
Gofal

Dyddiad: 15/10/2024